**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mehefin 27ain 2016 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7yh.**

**Presennol:** Cynghorwyr Margaret Bowe (cadeirydd), Raymond Bartley, Colin Hughes, Robert Parkes, Medwyn Williams, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones, Alyn Ashworth, Gaynor Morgan Rees, Brian Davies a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens.

**Yn Sylwi**: Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler a 4 aelodau o'r cyhoedd.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod mis Mehefin o'r cyngor llawn.

**20. Materion Brys**: **Nid oedd unrhyw fater brys.**

**21. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych a materion cynllunio - personol.
(2) Cyng Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Mark Young - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.

**22. Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Mai 23ain 2016.**

**23. Materion yn codi: Dim**

**24. Adroddiad y Maer:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Margaret Bowe o'i apwyntiadau cyfredol.

**25. Parcio yn Ninbych:** Rhif 14 ar yr agenda gwreiddiol. Gofynnodd y cadeirydd am yr eitem gael ei ddygwyd ymlaen gan fod preswylwyr Dinbych yn bresennol.

Nodwyd yr holl e-bostiais a gohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn ar fater parcio (gweler rhif 26:16). Sylwodd y Cyng Raymond Bartley trefniad maes parcio Prestatyn sydd yn cael ei reoli gan y cyngor tref. Mae Cyngor Sir Dinbych yn derbyn taliad rhwng £9,000 & £12,000 gan y cyngor tref i sicrhau fod y preswylwyr yn derbyn parcio am ddim. Darllenodd y Cyng Raymond Bartley e-bost gan Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) derbyniwyd 22/06/16. Arfaethedig 5 neu 6 bylchau ddi dal yn faes parcio Stryd y Dyffryn am 1 awr gyda 1 bwlch i'r anabl ar gael am 2 awr. Cymerith tua 4 - 6 wythnos i hun gael ei weithredu. Mae Sir Ddinbych hefyd yn edrych ar newid statws maes parcio Ward Ffatri i fod yn faes parcio arhosiad hir - cymerith hyn tua 2 fis i'w weithredu. Gofynnodd y Cyng Alyn Ashworth beth fuasai costau ân bob bwlch parcio fod am ddim yn y maes parcio Stryd y Dyffryn? Cynghorodd y Cyng Colin Hughes for adran Economaidd ac Adfywiad yn Sir Ddinbych yn gweithio gyda phreswylwyr pan mae gwasanaeth parcio yn gweithio yn erbyn. Gofynnodd y Cyng Colin Hughes i gyfarfod cael ei drefnu gyda Graham Boase a Mike Jones, y ddau o Gyngor Sir Ddinbych i drafod y sefyllfa. Cynghorodd y Cyng Colin Hughes pe bai'r maes parcio ar Stryd y Dyffryn yn cael ei wneud yn ddi dal buasai'n galed iawn ei reoli/heddlu. Cynghorodd y Cyng Robert Parkes fod y dyraniad parcio yn gynhennus yn enwedig gan

nad oedd cyngor tref wedi ei ymgynghori. Cynghorodd y Cyng Raymond Bartley fod y prif weithredwr Dr Mohammed Mehmet ddim yn hapus gyda'r cynnig ac mai swyddog oedd wedi gwneud y penderfyniad. Mae angen edrych ac anghenion bob tref yn unigol a dim fel y cyfan. Mae rhai bylchau am ddim yn well na dim ond nid yw yn ddigon. Dywedodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle ei bod am gysylltu gyda chydgysylltwr cynllun cyfeiriad meddyg weld os oes unrhyw newid mewn ffigyrau presenoldeb rhwng Ebrill a Mehefin 2015 & 2016. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Graham Boase i drefnu cyfarfod arbennig i drafod sefyllfa gyfredol a darganfod costiadau yn berthnasol i newidiadau i maeusydd parcio. Gofynnodd y cadeirydd wrth y gwylwyr os oedd ganddynt un cwestiwn i'w ofyn i'r cynghorwyr.
Gofynnodd Mr Andrew Cordiner sut oed Cyngor Sir Ddinbych yn gallu newid prisiau parcio heb unrhyw ymgynghoriad. Dywedodd y Cyng Colin Hughes fod y penderfyniad wedi cael ei ddirprwy ond ni fydd hun yn digwydd eto. Dywedodd y Cyng Sir Gwyneth Kensler dyle Sir Ddinbych gyfarfod gyda busnesai a hefyd gweld gallith y maes parcio aml-lawr fod am ddim.
Cadarnhawyd unwaith fod cyfarfod wedi cael ei benodi buasai clerc y dref yn cysylltu gyda phreswylwyr sydd wedi mynychu'r cyfarfod a hefyd rhai sydd wedi gyrru e-bost yn eu galluogi mynychu'r cyfarfod.

**26. Llythyrau, E-bost a Hysbysiad:** Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) E-bost o ddiolch gan Relate Cymru am y taliad cymhorthdal.
(2) Llythyr gan y Gideons yn gofyn am gyflwyno'r Maer gyda chopi o'r Beibl.
(3) E-bost gan y Cyng Sir Gwyneth Kensler yn cynghori am y rhigol sydd wedi ei rwystro yn Ysgol Frongoch.
(4) llythyr gan ein tref gefeillio Biebertal yn gwahodd y maer a chlerc y dref i ddathlu pen-blwydd 25ain.
(5) E-bost gan Karin Steinmuller yn gofyn ân fanylion ynglŷn ar ddathliad pen-blwydd 25ain o'r gefeillio.
(6) Hysbysiad ynglŷn â digwyddiad ar 27/06/16 - Lansiad cronfa addysg ar gyfer Dinbych ar Gylch, digwyddiad wedi ei ganslo.
(7) E-bost gan un llais Cymru i gynghorau mwy, cynhadledd 06/07/16.
(8) E-bost gan Jonathan Smith ynglŷn ag elusen St Thomas Day & John Evans - cyfarfod i'w gynnal ar nos Lun 11ef o 'Orffennaf i drafod.
(9) Hysbysiad - Gwasanaeth ieuenctid sir Ddinbych, gwybodaeth ddiweddaraf ardal.
(10) E-bost ynglŷn â digwyddiad yng ngholeg Myddleton, Dinbych ar 07/07/16 yn cyhoeddi Eisteddfod Llangollen.
(11) Hysbysiad ynglŷn â Gweithdy Cyllid Cymunedol 29/06/16.
(12) Hysbysiad ynglŷn ag ymgyrch LoveLiveLife.
(13) E-bost ynglŷn â the mefus i gynorthwyo cymdeithas efeillio Dinbych 10/07/16.
(14) E-bost ynglŷn â Chyllid Llywodraeth leol - estynedig 11/07/16.
(15) E-bost - Datblygu eich Rhaglen Gwirfoddolwyr 30/06/16.
(16) E-bost ynglŷn â mater parcio yn Ninbych - am fwy o fanylion gweler eitem 25.
a) Oliver Jones - cynghori tyle tref Dinbych cael mwy o ddweud wrth benderfynu costau.
b) Lowrid - mynegi anhapusrwydd ar gynnydd taliadau, gofyn am y taliadau newid yn ôl i'r taliadau gwreiddiol.
c) Steve Redfern-Jones - megis gweld Cyngor Tref Dinbych yn cymryd rheolaeth ar daliadau maes parcio.
d) Susan Muse - manylion helaeth ynglun are mater parcio ar effaith ar y gymuned leol a busnesai.
e) Menna Jones - Pryderu am y cwymp mewn masnach yn dilyn ychwanegiad mewn pris parcio.
f) Margaret Hards - Mynegi pryder yn ychwanegiad pris a phoeni bydd pobl yn mynd i Brestatyn i siopa.

g) E-bost gan Nicola Caie - cyngor sir Ddinbych adran Datblygu Economaidd a Busnes yn gofyn i fusnesai gofnodi beth ydi colled % incwm rhwng Ebrill - Mehefin 2016 i gymharu gyda'r un dyddiau yn 2015.

(17) E-bost gan Lyndsey Tasker yn cadarnhau penderfyniad y pwyllgor am beidio ymgeision ân £500 ychwanegol.

(18) E-bost gan Volker Boehm, golygydd o bapur newydd Almaenaidd ynglŷn ag etholiad UE.

(19) E-bost gan Ringyll Neil Stringfellow yn cynghori fandaliaeth a difrod troseddol yn dilyn carnifal Dinbych dydd Sadwrn.

**27. Cynllunio**:

(1)Bryn Awel, 40 Lon Llewelyn, Dinbych - Codi estyniad i gefn yr annedd. Roedd yr item yma wedi ei ohirio o gyfarfod cynllunio dydd Mawrth 21ain o Fehefin. Ni chafwyd ateb gan Gyngor Sir Ddinbych yn dilyn y cyfarfod cynllunio o'r 21ain o Fehefin, mae'r eitem wedi ei ohirio eto tan gyfarfod cynllunio Gorffennaf i'w gynnal 19/07/16.

(2) Athrofa eglwys flaenorol Llys y Grawys, Dinbych - Newid defnydd o lawr gwaelod neuadd eglwys i stiwdio ffitrwydd (dosbarth defnydd D2). Cytunodd y cyngor tref yn unfrydol i dderbyn y cynnig.

**28. Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fehefin 20fed 2016.

(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fehefin 21ain 2016.

**29. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor: Dim**

**30. Adroddiadau**:

(1) <u>Grŵp Coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf</u>. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod eitem 2.8 am gael ei newid i allu rhoi amser i wneud newidiadau i'r daith wreiddiol ac mae eitem 3, y ffilm am gael ei ddangos ar 23/09/16.

(2) <u>Cyfarfod gydag Archifydd CSDd - Nicola Samuel</u> - Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. (gweler eitem 38a am fwy o fanylion). Gofynnodd y Cyng Raymond Bartley fod Nicola Samuel yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf i ganiatáu'r cynghorwyr gael atebion i gwestiynau. Roedd y Cyng Medwyn Williams eisiau gwneud yn sicr fod eraill yn cael cyfle i weld data hanesyddol sydd yn perthyn i gyngor y dref cyn cael ei archifo. Mae'r cynghorwyr canlynol eisiau gweld y data hanesyddol - Cyng Margaret Bowe, Marilyn Jones, Medwyn Williams a Catherine Jones. Mae clerc y dref wedi cael caniatâd i ddechrau archifo cofnodion cyffredin sydd ddim angen eu trefnu. Mae'r cynghorwyr yn hapus i'r afondeb am £16.50 i gyngor sir Ddinbych am focsys storfa cael ei dalu.

(3) <u>Taith Prydain</u> - Disgwyl am fanylion gan CSDd. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad y clerc. Mae'r clerc yn cael cyfarfod gyda Gareth Watson, Rheolwr CC, CSDd. Gofynnwyd i'r clerc ofyn y cwestiynau canlynol - iechyd a diogelwch ar safle cylchfan Llys y Grawys, bydd taliadau am barcio yn ystod y digwyddiad ac mae difrod i waith cerrig wrth y rheiliau ar ben y rheiliau ar y Stryd Fawr.

(4) <u>Grŵp Gweithio Rheolau Sefydlog</u> - Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(5) <u>Cofnodion drafft o'r RB1 18/03/16</u> - Ystyriwyd a derbyniwyd yr adroddiad.

(6) Dywedodd y Cyng Medwyn Williams ei fod wedi mynychi CCB Popeth Cymraeg ar 06/06/16.

(7) Dywedodd y Cyng Catherine Jones ei bod wedi mynych cyfarfod llywodraethwr Ysgol y Parc. Mae arllwysiad gyda brech yr ieir a chlefyd coch ar hun o bryd. Mae yna bryder hefyd yr ysgol yn cau ar ddydd Mercher am wyliau haf - fydd hyn yn achosi cwymp mewn presenoldeb gyda teuleuodd yn mynd ar eu gwyliau.

(8) Mynychodd y Cyng Raymond Bartley CCB Eirianfa a llongyfarchodd Mr John Williams ar ei anrhydedd yn anrhydeddon y frenhines o BEM am ei waith elusen. Gofynnwyd i'r clerc yrru llythyr o longyfarch i Mr Williams.

(9) Mynychodd y Cyng Robert Parkes CCB grŵp diogelwch Dinbych ac mae wedi cael ei ail ethol fel cadeirydd. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth ambiwlans ar dîm cyswllt cyntaf i gael Dinbych gyda gwasanaeth 24 awr diffibrillator yn y dyfodol agos. Mae'r grŵp yn gweithio i gael y lleoliaeth canlynol gyda diffibrillator:- Masons, Capel Seion, Canolfan Hamdden, Bara Henllan & Eirianfa. Bydd Dinbych yn cael ei ddosbarthu fel y dref fwyaf diogel i fyw pan maen wedi cael ei sefydlu gyda dim mwy na 500 medr i'r un agosaf. Dywedodd y Cyng Alyn Ashworth dyle pob Cynghorwr cael hyfforddiant mew defnyddio defibrillator.

(10) Dywedodd y Cyng Roy Tickle for y digwyddiad Gŵyl Ganol Haf wedi bod yn llwyddiannus ond wedi i'w siomi nad oedd llawer o gynghorwyr tref yn bresennol.

(11) Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod y digwyddiad gwirfoddolwyr a gynhelwyd yng nghastell Dinbych ar 06/06/16 wedi bod yn llwyddiannus iawn, cafwyd amser braf gan bawb.

**31. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. **<u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley</u>**: a) Dywedodd y Cyng Raymond Bartley ei fod newydd gael ei benodi fel hapddaliwr i grŵp BCUHB, cynrychioli CSDd. b) Station Yard - Roedd dyroddiad dechrau'r mis gydag Adnoddau Naturiol Cymru sydd nawr wedi cael ei egluro. Bydd y gwaith gan Liberty yn dechrau'n fuan. c) Mynwent - dyroddiad gyda thorri gair dyle gael ei gwblhau cyn dydd y tadau - roed y contractwr wedi mynd methdalu ond mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau gan dîm Simon Billington i safon uchel iawn. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod y mater i wneud yn sicr wneith ddim digwydd eto. d) Datblygiad Brookhouse - dim mwy o fanylion ar hun o bryd. e) Grŵp MAGS Dinbych - Cynllun Gwylwyr Cymdogaeth, ar hun o bryd nid i'w gwirfoddolwyr yn cael eu harchwilio, bydd y broses yn cael ei newid. Unrhyw un eisio ymuno ar gynllun angen cysylltu gyda'r heddlu. Bydd rhestr o'r gwirfoddolwyr swyddogol yn cael ei roi i'r cyngor tref.

2. **<u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes:</u>** a) Dyraniad gyda thorri glaswellt yn ardal uchaf Dinbych - rhai lleoliad ddim ar y map, mae hun wedi cael ei atgyweirio. b) Mae Ysgol Pendref ar restr B am gronfa gwelliant, mae yna ansicrwydd sut gan fod y cymhorthdal yn gronfa Ewropeaidd.

3. **<u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng Mark Young:</u>** a) Yn cael dyroddiadau ynglŷn â thorri glaswellt a baw cwn. b) Mae cawodydd yn y ganolfan hamdden wedi cael ei gywiro a bydd thai gwaith ailwampio yn dechrau cyn bo hir. c) Roedd llif fflach ar Ffordd Rhyl ger Simply Fish & Chips, cafodd ei ddelio yn sydyn gan Gyngor Sir Ddinbych. d) Dyraniad hogiau'n rasio ar safle Ffordd yr Orsaf. e) Dyraniad gydag argaeledd tacsi yn Ninbych.

**32. Cyfrifon**

(a) Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| (1) Clwb Gymnasteg Rhuthun & Dinbych, gohirio tan 18/07/16 | | |
| (2) Drysau ar agor - gohirio o 20/06/16<br>(Rhif siec 005933) | - | £1500.00 |
| (3) Gwirfoddolwyr Cadwraeth Gymunedol Dinbych - gohirio tan 18/07/16 | | |
| (4) Shelter Cymru - Cymorthdal<br>(Rhif siec 005934) | - | £100.00 |
| (5) CAB Dinbych - Cyfnewidfa gwisg ysgol - gohirio 20/06/16<br>(Rhif siec 005935) | - | £500.00 |
| (6) P R Signs - Newid arwydd mannau o ddiddordeb yn Ninbych<br>(Rhif siec 005929) | - | £318.00 |
| (7) Catalyst - Cefnogaeth fisol mis mai<br>(Rhif siec 005930) | - | £22.07 |
| (8) Zen international Ltd - tal misol (11/07/16 - 10/08/16)<br>(Rhif siec 005931) | - | £18.37 |
| (9) Canda Copying - cytundeb rhent chwarterol | - | £167.55 |

Cyfanswm taliadau: **£2625.99**

(b) Unrhyw faterion ariannol: penderfynwyd derbyn ceisiadau am ddyddiadau parcio am ddim yn Ninbych - Medi 24ain (Drysau agored) a 1af o Hydref (Eirinen Dinbych)

**33. Parcio yn Ninbych:** gweler eitem 25.

**34. Goleuadau Nadolig -** Derbyniwyd dyfynbris gan Flachere a Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn â newid y weiren Catenary. Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y dyfynbris Blachere (rhif dyfynbris 1601/4656 dyddiedig 10/06/16) ac i'r gwaith gael ei gwblhau yn gyfan gwbl ganddynt. Bydd hun yn arbed £107.74 ac yn creu llai o rwygiad i breswylwyr Dinbych. Dywedodd clerc y dref bydd rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau rhwng 12/09/16 a mis Hydref, bydd hun yn caniatáu i'r bwnting fod ar gael am ddigwyddiadau'r dref. Gofynnwyd i glerc y dref ysgrifennu at fusnesai yn gofyn am ganiatâd i'r gael gosod bracedi newydd ar ei eiddo gan adael digon o amser am atebion cyn i'r gwaith ddechrau.

**35. Bwnting -** Mae Craig Wilson o Gyngor Sir Ddinbych wedi cysylltu â chlerc y dref i ddweud fod y bwnting mewn stad wael ac angen ei newid cyn y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Cyng Roy Tickle for 10 pac newydd wedi cael ei rhoi i'r cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf ac yn ei gwneud yn newydd y flwyddyn yma. Dywedodd y Cyng Roy Tickle hefyd fod ardaloedd o Ddinbych hed ddim neu lai o bwnting arferol., gofynnwyd i'r clerc gysylltu Craig gyda'r manylion a rhoi gwybodaeth yn y cyfarfod llawn y tro nesaf.

**36**. **Llungopïwr** - Dyfynbris gan Photostatic ynglŷn â newid y llungopïwr i'r cyngor tref. Derbyniwyd y cytundeb gan y cyngor llawn.

**37. Gwirfoddolwyr digwyddiad Drws Agored Medi 24 & 25 -** Gofynnodd clerc y dref ân wirfoddolwyr i helpu gydag agor y siambr yn ystod digwyddiad Drws Agored. Penderfynwyd y canlynol:

| Agor Sadwrn | Bore Sadwrn (10-1) | Pnawn Sadwrn(1-4) | Cloi Sadwrn |
|---|---|---|---|
| Jenny Barlow | Cllr Robert Parkes | Cllr Catherine Jones | Cllr Roy Tickle |
| **Agor Sul** | **Bore Sul (10-1)** | **Pnawn Sul (1-4)** | **Cloi Sul** |
| Jenny Barlow | Cllr Margaret Bowe | Cllr Marilyn Jones | Cllr Roy Tickle |

**38. Clerc y dref**

**a) Archifo dogfennau/dogfennau hanesyddol y dref -** gweler eitem 30.2

**b) Cytundeb gwaith -** Dywedodd clerc y dref fod angen cytundeb gwaith i fod mewn lle, cytunwyd i'r clerc ddarganfod cytundeb addas i'r swydd ai gyflwyno i is-bwyllgor wedi ei greu i'r broses recriwtio.

**c) Cynhaliaeth gwallt gosod -** cytunodd y cyngor tref i gael y gwallt gosod ei lanhau'n broffesiynol gan y cwmni gwreiddiol - Ede & Ravenscroft gyda chostau o £139 (un cynnwys taw).

**d) Hen glogwyn y maer -** cytunodd y cyngor tref i'r hen glogwyn cael ei fenthyca i lyfrgell - bydd yn cael ei arddangos yn siambr y maer.

**e) Unrhyw fater arall -** dim.

Terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd am 9.22yh.

Arwyddwyd:.................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................